**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-04-655
Ein cyf/Our ref:FM -/00874/15

William Powell AM
Cadeirydd - Pwyllgor Deisebau
Ty Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

13 Hydref 2015

Annwyl William,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ar 29 Medi 2015 yn gofyn am fy ymateb i ddeiseb a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Deisebau ynghylch hawliau siaradwyr Cymraeg yn y sector preifat.

Ers iddi ddod i rym, rwyf wedi bod yn gadarn yn fy ymrwymiad i weithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur").

Hyd yma, mae'r Llywodraeth bresennol wedi creu rôl Comisiynydd y Gymraeg; sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg ac wedi cyflwyno'r set gyntaf o reoliadau i wneud safonau'r iaith Gymraeg yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r gwaith hwn wedi gosod seiliau cadarn ar gyfer strwythur rheoleiddio newydd ar gyfer yr iaith Gymraeg. Rwy'n falch o allu dweud, erbyn diwedd cyfnod y Llywodraeth hon bydd dros 200 o sefydliadau yn ddarostyngedig i safonau, sy'n gam sylweddol ymlaen.

Yn unol â'r Mesur, mae'r broses o drefnu'r sefydliadau wedi bod yn rôl i Gomisiynydd y Gymraeg ac wedi cael eu gosod yn ei rhaglen dreigl ar gyfer cynnal ymchwiliadau safonau. Cafodd nifer o gyrff gwirfoddol eu cynnwys yn ail ymchwiliad safonau'r Comisiynydd ac mae Rheoliadau wrthi 'n cael eu paratoi i benodi safonau ar gyfer y sefydliadau hynny. Cafodd rhai sefydliadau o'r sector preifat eu cynnwys yn ei thrydydd ymchwiliad yn ogystal. Byddwn yn derbyn casgliadau'r Comisiynydd yn dilyn ei thrydydd ymchwiliad yn hwyrach yn y flwyddyn. Penderfyniad y Comisiynydd fydd hi bryd i gynnal ymchwiliadau pellach gallai gynnwys cwmnïau ffôn, band-eang, egni a thrafnidiaeth, fel y cyfeirir ati yn y ddeiseb.

Fel y nodais yn y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb ac Awdurdodau Lleol Ar 24 Medi 2015, rwy'n hapus i ymrwymo i ddiwygio'r Mesur. Mi fydd hynny ym mynd i'r afael â'r pryderon a amlygwyd yn y ddeiseb. Roedd y Mesur yn garreg filltir bwysig yng nghyd-destun yr iaith Gymraeg; Cadarnhaodd statws swyddogol yr iaith a chreodd drefn newydd o orfodi dyletswyddau i gryfhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Wrth weithredu'r Mesur

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
YP.PrifWeinidog@cymru.gsi.gov.uk • ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk

fodd bynnag, rydym wedi dod ar draws elfennau gallai cael eu symleiddio a'u gwella. Yn hynny o beth, mae'n bwysig ein bod yn ail-ymweld â'r Mesur er mwyn sicrhau y gall cael ei weithredu yn y modd mwyaf effeithiol.

Yn gywir



**CARWYN JONES**